# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR

# ANNUAL REPORT OF GOVERNORS

2023/2024




YSGOL GYMRAEG CWMBRÂN
HENLLYS WAY
ST DIALS
CWMBRÂN
TORFAEN
NP44 4HB
Rhif ffôn: 01633 483383
www.ysgolgymraegcwmbran.co.uk
@ygcwmbran

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Sicrhaodd dull addysgu thematig fod 2023-24 yn flwyddyn llawn profiadau dysgu cyfoethog i'n holl ddisgyblion. Nid yn unig y gwnaeth y disgyblion elwa o gael eu addysgu gan staff medrus ac ymroddedig ond hefyd o weithio gydag asiantaethau allanol niferus ac ymweliadau pwrpasol oddi ar y safle. Cyfoethogwyd y cwricwlwm eang ymhellach gan lawer o glybiau allgyrsiol.

Mae lles ein disgyblion bob amser wrth galon popeth a wnawn a'n nod yw sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra a digonedd o brofiadau i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae eich cefnogaeth fel rhieni a gwarcheidwaid yn hanfodol. Bydd ein disgyblion yn llwyddo ac yn gwneud cynnydd gwych pan fydd y bartneriaeth gartref/ysgol yn un effeithiol.

Yn gywir

C Evans
Pennaeth

*Dear Parent/Guardian*

*A thematic teaching approach ensured that 2023-24 was a year filled with rich learning experiences for all our pupils. Not only did the pupils benefit from learning from a highly skilled and dedicated staff but also from working with numerous external agencies and purposeful visits off site. The broad curriculum was further enriched by many extra-curricular clubs.*

*The wellbeing of our pupils is always at the heart of everything we do and our aim is to ensure that they receive tailored support and plentiful experiences to reach their full potential.*

*Your support as parents and guardians is essential. Our pupils will fluorish and make great progress when the home/school partnership is an effective one.*

*Yours sincerely*

*C Evans*
*Headteacher*

**Neges gan y Cadeirydd, Mrs J Lewis**
Message from the Chair, Mrs J Lewis

Ar ran y corff llywodraethol, hoffwn gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-24.

Nod yr adroddiad hwn yw amlygu'r profiadau dysgu amrywiol a chyfoethog y mae ein disgyblion wedi'u mwynhau, i roi cipolwg ar ein blaenoriaethau allweddol, a dangos sut rydym yn gosod disgyblion yn gyson wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae partneriaeth gref rhwng disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, a'r ysgol yn hanfodol er mwyn i bob disgybl gyrraedd ei lawn botensial. Mae'r ysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynnig cefnogaeth ragorol i holl gymuned yr ysgol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gefnogi yn yr ysgol a gartref. Mae sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn teimlo'n rhan o'n cymuned yn flaenoriaeth. Ceisiwn gynnig llawer o gyfleoedd i'n teuluoedd a'r gymuned ehangach gymryd rhan weithredol yn nhaith ddysgu ein disgyblion.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen yr adroddiad hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Jo Lewis, Cadeirydd y Llywodraethwyr, drwy'r adran 'Cysylltwch â ni' ar wefan yr ysgol. Mae croeso i rieni a gwarcheidwaid gwrdd â llywodraethwyr yr ysgol i drafod yr adroddiad. Er nad ydym wedi trefnu dyddiad penodol am gyfarfod, gallwn drefnu un os oes digon o ddiddordeb.

On behalf of the Governing Body, I am pleased to present the annual report for the academic year 2023-24.

This report aims to highlight the diverse and enriching learning experiences our pupils have enjoyed, provide insight into our key priorities, and demonstrate how we consistently place pupils at the centre of all we do.

A strong partnership between pupils, parents/guardians, and the school is essential for each pupil to reach their full potential. The school remains committed to offering outstanding support to the entire school community, ensuring that every child is supported both at school and at home. Ensuring that all stakeholders feel part of our community is a priority. We try to offer many opportunities for our families and the wider community to actively participate in the learning journey of our pupils.

Thank you for taking the time to read this report. If you have any questions, please contact Jo Lewis, Chair of Governors, via the 'Contact us' section on the school website. Parents and guardians are welcome to meet with the school governors to discuss the report. While we have not scheduled a specific meeting date, we can arrange one if there is sufficient interest.

**C.Rh.A**
P.T.A.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd y digwyddiadau a gweithgareddau codi arian canlynol a chawsant gefnogaeth dda gan rieni a'r gymuned ehangach:
Ffair haf, disgo Calan Gaeaf, disgo Diwrnod y Llyfr, ffair Nadolig, taith i Gaerfaddon, cystadleuaeth lliwio, stondinau hufen ia a stondin yn ystod y mabolgampau.

Caniataodd yr uchod i ni dalu am y canlynol:
Hoodies gadael Blwyddyn 6, cyfrannu at gost tripiau a system 'speaker' newydd i'r ysgol

*During the year, the following events and fundraising activities took place and were well supported by parents and the wider community:*
*Summer fayre, Halloween disco, World Book Day disco, Christmas fayre, Christmas shopping trip to Bath, colouring competition, ice cream stalls and a stall on sports day.*

*This fundraising contributed towards:*
*Leaving hoodies for Year 6, part funding for school trips and a new speaker system for the school.*

**Yn ystod 2023-2024, mae'r ysgol wedi cyflawni'r canlynol**
Gwobr platinwm Eco-ysgolion wedi ei adnewyddu
Adnewyddu achrediad aur y Siarter iaith
Achrediad ysgol 'ELSA'

**During 2023-2024, the school have achieved the following**
Eco School Platinum award renewed
Renewal of the Siarter Iaith Gold Accreditation
'ELSA' accredited school

**Cefnogi Elusennau:**
Trwy haelioni ein disgyblion a'u teuluoedd, roeddem yn gallu cefnogi nifer o elusennau yn ystod 2022-2023 gan gynnwys:

Banc Bwyd Eastern Valley
Plant Mewn Angen
Diwrnod trwynau cochion
Digartrefedd ymhlith pobl ifanc
DEC Cymru

***Supporting Charities:***
Through the generosity of our pupils and their families, we were able to support many charities during 2022-2023. These included:

Eastern Valley Food Bank
Children In Need
Red nose day
Youth Homelessness
DEC Cymru

**Clybiau allgyrsiol**
Trefnwyd y clybiau canlynol gan staff i gyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach ac i ganiatáu i'r disgyblion ddatblygu sgiliau newydd ac i gymdeithasu y tu allan i'r ystafelloedd dosbarth:

Clwb Chwaraeon (Chwaraeon amrywiol a gweithareddau cadw'n heini)
Clwb Sgiliau Bywyd
Clwb Gwyddoniaeth
Clwb Celf
Clwb yr Urdd
Clwb Gemau
Clwb TGCh
Côr
Cyngor Eco a Chyngor Ysgol
Clwb Lles (Chwarae Torfaen)

**Extra-curricular Clubs**
These clubs were organised by staff to further enrich the curriculum and to allow pupils to develop new skills and to socialise outside the classroom:

Sports Club (variety of different sports)
Gardening Club
Life Skills Club
Science Club
Art Club
Urdd Club
Games Club
Clwb TGCh
Choir
Eco-Committee and School Council
Play and Well being Club (Torfaen Play)

**CORFF LLYWODRAETHOL 2022/2023**
**THE GOVERNING BODY 2022/2023**

| | | |
|---|---|---|
| **Cadeirydd**<br>**Chair** | Mrs Jo Lewis<br>(A.Ll/L.A) | 22.09.27 |
| **Is-gadeirydd**<br>**Vice-chair** | Mr Paul Roberts<br>(Cyfethol/Co-opted) | 02.12.24 |
| **Cynrychiolydd**<br>**Representative** | **Enw**<br>**Name** | **Diwedd**<br>**Term Ends** |
| **Rhieni / Parents** | Miss K Bengough | 07.12.25 |
| | Mrs Leanne Davies-Palmer | 15.07.25 |
| | Mr Shaun Thomas | 15.07.25 |
| | Mr Alexa Tudball | 26.10.27 |
| **Athrawon / Teachers** | Mr C Price | 31.08.27 |
| **Staff** | Mrs J. Walker | 28.06.27 |
| **Cymunedol / Community:** | Mr Guto Aaron | 29.01.24 |
| | Mr Wayne Beecham | 11.06.27 |
| **Awdurdod Lleol/Local Authority** | Mrs Lisa Baulch | 11.10.25 |
| | Mr Dale Matthews | 11.10.25 |
| **Pennaeth / Headteacher** | Miss C Evans | |
| **Clerc/Clerk** | Ms K Worwood | |

**Swyddogaeth y Corff Llywodraethol**

Mae'r corff llywodraethol llawn ac is-bwyllgorau wedi cyfarfod yn gyson. Ymhob cyfarfod llawn derbyniwyd ac ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth ar yr ysgol a'i gwaith. Daethpwyd â nifer o faterion eraill i sylw'r llywodraethwyr o'r Awdurdod a'r GCA. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael i'r sawl sy'n dymuno eu darllen.

Mae'r llywodraethwyr wedi mynychu hyfforddiant ac maent yn rhoi cymorth a chefnogaeth yn ôl y galw.

Mae pob llywodraethwr yn arweinydd ar o leiaf un agwedd ar fywyd yr ysgol, gan weithio ar y cyd i wella darpariaeth a chodi safonau. Mae'r Corff Llywodraethol yn monitro blaenoriaethau gwella'r ysgol yn rheolaidd ac yn chwarae rhan annatod wrth sicrhau llwyddiant parhaus yr ysgol.

***Functions of the Governing Body***

*Regular meetings have been held of the full governing body and of the sub-committees. At each full meeting the governors received and considered the Headteacher's report on the school and its work. A number of wider issues from the Authority and the EAS were brought to the governors' attention. Minutes of all these meetings are available at the school for anyone who wishes to read them.*

*The governors have attended training and have given assistance and support to the school as and when required.*

*Each governer is a leader of at least one aspect of the school's life, working collaboratively to improve provision and raise standards. The Governing Body regularly monitors school improvement priorities and plays an integral role in ensuring the continued success of the school.*

**Staff yr ysgol/ *The School staff 2023/2024***

| | |
|---|---|
| Pennaeth/*Headteacher* | Miss Catrin Evans |
| Dirprwy/ *Deputy* | Miss Catrin Passmore |

Athrawon/Teachers

| | |
|---|---|
| Miss Catrin Passmore | Blwyddyn/Year 6/Dirprwy/Deputy |
| Miss Wena Williams | Blwyddyn/Year 6/5 |
| Mrs Bethan Dalgleish | Blwyddyn 5/Year 5 |
| Mr Carwyn Wilson-Price | Blwyddyn 4/Year 4 |
| Mrs Shelley Lewis | Blwyddyn/Year 4/3 |
| Miss Katie Westphal | Blwyddyn/Year 3 |
| Miss Gwenno Morris/Mrs Katie Aubrey | Blwyddyn/Year 2 |
| Mr Liam Arlotte | Blwyddyn/Year 2 |
| Miss Nia Sheppeard | Blwyddyn /Year 1 |
| Mr Gethin Dobson | Blwyddyn /Year 1 |
| Miss Poppy Rivers | Derbyn/Reception |
| Ms Sioned Emery | Meithrin/Nursery/CPA |
| Miss Erin Williams | CPA |
| Miss Hedydd Broad/Miss Gwenno Morris | CADY/ALNCo |

Cynorthwywyr
*Teaching Assistants*

Miss Emma Harris
Mrs Hannah Young
Miss Sophie Kirkby
Ms Elinor Newland-Jones
Mrs Julie Carpenter
Mrs Hayley Booth
Mr Rhys Bolton
Miss Ellie-May Evans
Ms Karen Bengough
Miss Jodie Powell
Miss Bridie Jones
Miss Naomi Nicalaou
Miss Madi Jones
Mr Elliott George

| | | |
|---|---|---|
| Swyddfa/*Office* | Mrs Janet Walker | Bwrsar / Secretary |
| | Miss Holly Norman | Cynorthwyydd Clerigol/Clerical Assistant |

Goruchwyliwyr Cinio
*Mid-day Supervisors*

Mrs Angela King
Ms Lauren Robinson

| | |
|---|---|
| Gofalwr/*Caretaker* | Mr John Norman |
| Cleaner | Miss Emma Norman |


2024











**Nifer o ddisgyblion - Medi 2023**

Roedd 293 ddisgyblion ar y gofrestr – 109 Cyfnod Sylfaen ac 165 Cyfnod Allweddol 2. Hefyd cofrestrwyd 19 Meithrin (0.5) gyda'r nifer yma yn cynyddu wrth i'r flwyddyn mynd yn ei blaen.
Symudodd 45 disgybl i'r Ysgol uwchradd ym mis Gorffennaf 2024

***Number of pupils – September 2023***

*There were 293 pupils on roll – 109 Foundation Phase and 165 Key Stage 2. 19 Nursery pupils (0.5) were also registered but this rose throughout the year.*
*45 pupils transferred to Secondary School in July 2024*

**Prydau Ysgol**

Estynnwyd y cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl y flwyddyn academaidd hon. Bob dydd mae ganddynt ddewis o bryd poeth cig neu lysieuol neu stondin salad/pasta.

Wrth gyflwyno'r Clwb Brecwast ym mis Medi 2023, mae gan bob disgybl o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 y nawr yr opsiwn o gael brecwast iach. Mae'n agor am 8:15am ac mae'r nifer sy'n mynychu yn amrywio o ddydd i ddydd.

***School Meals***

*The universal free school meals offer was extended to all pupils this academic year. Each day they have the choice of a meat or vegetarian hot meal or salad/pasta bar.*

*The introduction of the Breakfast Club in September 2023 offers all pupils from Reception to Year 6 the option to have a healthy breakfast. It opens at 8:15am and the number who attend varies from day to day.*

**% presenoldeb Medi 2023 – Gorffennaf 2024**
***% attendance September 2023– July 2024***

| Presennol | Absennol â chaniatâd | Absennol heb ganiatâd |
|---|---|---|
| 92.61% | 6.15% | 1.24% |
| *Present* | *Authorised Absence* | *Unauthorised Absence* |
| *92.61%* | *6.15%* | *1.24%* |

Rydym yn monitro presenoldeb y disgyblion yn ofalus drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ysgol yn parhau i osod pwyslais mawr ar gynyddu lefelau presenoldeb disgyblion. Rydym yn gweithredu'n gyson er mwyn gwneud hynny ac mae strategaethau penodol yn dwyn ffrwyth. Gweithiwn yn agos gyda'r swyddog lles er mwyn cefnogi disgyblion a'u rhieni i ddatblygu patrymau presenoldeb llwyddiannus. Ni fydd gwyliau yn ystod y tymor ysgol yn cael eu hawdurdodi os yw presenoldeb disgybl yn isel, maent yn effeithio ar gynnydd disgybl ac yn atal yr ysgol rhag cyrraedd ei tharged presenoldeb. Y Pennaeth sydd ag hawl i awdurdodi absenoldebau a gellir ddod o hyd i fwy o wybodaeth ym mholisi presenoldeb yr ysgol.

*We monitor attendance carefully throughout the year. The school continues to put great emphasis on raising attendance levels. The school has developed many strategies to improve the levels of attendance and works closely with the Education Welfare Officer. Holidays booked during the school term will not be authorised if a pupil's attendance is low, they impact on a pupil's progress and prevent the school from reaching its attendance target. Authorising absences is at the discretion of the headteacher, and further information can be found in the school's attendance policy.*

**Iaith yr Ysgol**

Mae'r ysgol yn ysgol gyfrwng y Gymraeg. Mae'r holl wersi yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Yng Nghyfnod Allweddol 2 cyflwynir Saesneg ac mae disgyblion yn cael eu haddysgu drwy'r ddau gyfrwng, ond yn bennaf yn y Gymraeg.

***Language of the School***
*The school is a Welsh Medium School. The Foundation Phase receive all their learning experiences through the medium of Welsh. English is introduced in Key Stage 2 and the pupils are taught through both mediums but predominantly in Welsh.*

**Datblygu'r Cwricwlwm**

Mae ein cwricwlwm yn parhau i esblygu. Mae'r dull thematig yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau ar draws pob maes dysgu. Dewiswyd y themâu'n ofalus sef Mudo, Dewrder a Newidiadau. Fodd bynnag, mae'r angen i sicrhau bod ein disgyblion yn gwbl ddwyieithog a'r un mor hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu bod yn rhaid inni barhau i roi'r pwyslais mwyaf ar ddatblygu eu sgiliau iaith. Ein nod yw meithrin dysgwyr chwilfrydig, uchelgeisiol a galluog sy'n gallu trosglwyddo eu sgiliau'n hawdd i bob maes dysgu.

Mae'r dull thematig hefyd yn addas ar gyfer cynnwys diwrnodau/wythnosau penodol e.e. Wythnos Cerdded a Beicio i'r ysgol, wythnosau Lles, Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored, Gwneud i £5 dyfu 'Show racism the red card', heriau noddedig, Wythnos Gwyddoniaeth, Diwrnod Siarter Iaith Seren a Sbarc a llawer mwy. Bellach gwneir mwy o ddefnydd o dir yr ysgol ac mae hwn yn faes y byddwn yn parhau i'w ddatblygu wrth symud ymlaen. Mae llais y disgybl yn parhau i fod yn rhan annatod o gynllunio profiadau dysgu.

***The Curriculum***

*Our curriculum continues to evolve. A theme-based approach allows pupils to develop their skills across all areas of learning. The themes were carefully chosen and these Migration, Bravery ad Changes. However, the need to ensure our pupils are fully bilingual and equally confident in both Welsh and English means that we must continue to place an emphasis on developing their language skills. Our aim is to foster inquisitive, ambitious, and capable learners who can transfer their skills easily to all areas of learning.*

*The thematic approach also lends itself to the inclusion of distinct days/weeks e.g. Big Walk and Wheel week, Wellbeing weeks, Learning in the Outdoors week, Make £5 grow, Show racism the red card, sponsored challenges, Science week, Seren and Sbarc Siarter Iaith Day and many more. Greater use is now made of the school grounds, and this is an area which we will continue to develop moving forward. Pupil voice remains integral to planning learning experiences.*

**Asesu** – Cadw cofnodion a chyflwyno gwybodaeth

Mae asesu ar gyfer dysgu yn ganolog i weithred effeithiol y cwricwlwm.

Yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân yr ydym yn awyddus i'r asesu fod yn ddull effeithiol a gweithredol o gofnodi cynnydd unigolion.

Yn ystod y flwyddyn 'rydym wedi

1. Defnyddio arddull drylwyr o farcio cau'r bwlch.
2. Datblygu systemau cyd-safoni mewnol a rhwng y Cyfnodau.
3. Sicrhau bod asesu ar gyfer dysgu yn flaenllaw ym mhob gwers.

Sicrhawyd bod yr adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn cynnwys sylwadau am gyflawniad, ynghyd â sylwadau ar ymdrech ac agwedd ac yn cyfeirio at gynnydd y disgyblion yn unol â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Rydym yn cynnal tair noson rieni y flwyddyn er mwyn rhoi cyfle i rieni i siarad ag athro'r dosbarth eu plant ac i drafod gwaith eu plant. Yn ychwanegol, cynhelir 'Diwrnodau Agored' i gynnig cymorth i rieni ar sut i helpu eu plant.

Mae'r ysgol wedi sefydlu dull o weithredu ym maes ADY sydd yn ymateb i ofynion y ddeddf newydd.

***Assessment*** *– Record keeping and Reporting*

*Assessment is central to the effective implementation of the curriculum.*

*Our aim is for assessment to be an effective and practical way of ensuring and recording progress in the national curriculum.*

*During the year we*

1. *Used a thorough and consistent approach to 'closing the gap' marking.*
2. *Developed the internal and cross key stage moderating systems.*
3. *Ensured that assessment for learning is at the forefront of each lesson.*

*Efforts are made to ensure that written reports to parents contain comments of achievement in all national curriculum subjects along with the individual's progress in relation to the national literacy and numeracy framework and Digital Competency Framework as well as comments on efforts and attitude. We hold three parents' evenings per school year to give parents the opportunity to speak to their child's class teacher and discuss their child's work. In addition, open days are held to offer guidance to parents on how best to support their child's learning.*

*The school has established robust policies and procedures for ALN which respond to the requirements of the new act and legislation.*

**Blaenoriaethau Gwella'r Ysgol 2023-24**

Newidiodd fformat y CDY ychydig. Roedd ganddo ddwy prif flaenoriaeth sef Cwricwlwm i Gymru a gweithredu'r Ddeddf ADY newydd.

Y blaenoriaethau a oedd yn sail i'r uchod oedd:
Olrhain cynnydd ac asesu
Datblygu annibyniaeth
Datblygu capasiti o fewn yr UDRh a datblygu arweinyddiaeth ar draws ymhellachLlafaredd ar draws yr ysgol
Gwreiddio'r FFCD

**School Improvement Priorities for 2023-24**

The format of the SDP changed slightly. It had two overarching priorities consisting of Curriculum for Wales and the implementation of the new ALN act.

The priorities which underpinned the above were:
Tracking and Assessment
Developing Independence
Developing capacity within the SLT and further develop leadership across the school
Embed the DCF

Adroddir ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau ym mhob cyfarfod llywodraethwyr.

*The progress made against each of these priorities is reported at each governor meeting.*

**Campau'r Disgyblion**

***Pupils' Achievements***

Cafodd ein timau ysgol lawer o gyfleoedd i gystadlu yng nghystadlaethau gwahanol a drefnwyd gan yr Urdd a Newport County. Cynrychiolodd disgyblion yr ysgol mewn cystadleuaeth Bowlio Deg Panathlon a chafwyd llwyddiant wrth ennill y gystadleuaeth aml-chwaraeon. Yn ogystal, cynrychiolodd dau grŵp yr ysgol yng Ngŵyl Ddawns Torfaen a gynhaliwyd yn Theatr y Gyngres.

*Our school teams had many opportunities to compete in the different conpetitions organized by the Urdd and Newport County. Pupils represented the school in both a Panathlon Ten Pin Bowling Competition and were very successful in winning the multi-sport competition. In addition, two groups represented the school in the Torfaen Dance Festival which was held in the Congress Theatre.*

## **Newyddion o'r adrannau 2023-24**
## ***News from the Departments 2023-24***

### **Meithrin – Blwyddyn 2/*Nursery to Year 2***

### **Meithrin – Blwyddyn 2/*Nursery to Year 2***

Bu'r cwricwlwm ar gyfer ein dysgwyr iau yn parhau i esblygu gyda llais y disgybl a themâu eang yn galluogi y disgyblion i fwynhau ac elwa'n fawr o ystod o brofiadau gwerthfawr. Rhoddwyd llawer o bwyslais ar brofiadau dysgu ymarferol.

Fel rhan o'u testun 'Mudo', fe wnaeth disgyblion Blwyddyn 2 fwynhau plotio taith y 'nico', adeiladu blychau nythu unigol, adeiladu nythod ac ymweld â'r ardal goediog leol i chwilio am yr adar sy'n byw yno.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 ddealltwriaeth well o'u hardal leol trwy ymweld â'r gamlas i arsylwi'r bywyd gwyllt. Buont yn plannu coed a phlanhigion a dysgu sut i ofalu am ardd yr ysgol. Uchafbwynt i lawer o'r disgyblion oedd cloddio am esgyrn deinosor yng ngardd wyllt yr ysgol. Roedd hyn ynghyd â gwers gan yr Amgueddfa Genedlaethol ar ddeinosoriaid yn tanio diddordeb y disgyblion ac fe wnaethant fwynhau'r testun yn fawr.

Cafodd ein dysgwyr ieuengaf yn y Feithrin amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ymarferol. Datblygon nhw eu sgiliau Cymraeg sylfaenol wrth flasu bwydydd, cymysgu lliwiau, arbrofi gyda magnetau, dŵr a thoes. Fe wnaethon nhw fwynhau'n fawr ddysgu am bobl sy'n ein helpu ni ac archarwyr fel rhan o'r thema 'Dewrder'.

I gyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach, cawsom lawer o ymwelwyr ac ymweliadau. Roedd y rhain yn cynnwys taith i Sainsbury's, bore coffi llwyddiannus iawn i Deidiau a Nain a sgwrs gan aelod o Erddi Cymunedol y Goetre ar wenyna. Cafodd y disgyblion fudd o deithiau i'r Senedd a Techniquest.

Drwy gydol y flwyddyn, bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ddigon ffodus i gael gwersi wythnosol o 'Torfaen Music'. Unwaith eto eleni, cafodd plant blwyddyn 2 wersi ffidil am ddim gan 'Gerddoriaeth Gwent' a braf oedd eu gweld yn perfformio i'w teuluoedd ar ddiwedd eu gwersi.

Cipolwg yn unig yw hwn o'r llu o brofiadau dysgu amrywiol sydd wedi'u trefnu ar gyfer y disgyblion. Mae cyfrif X yn llwyfan gwych i weld sut mae ein disgyblion yn datblygu eu sgiliau ym mhob maes o'r cwricwlwm ac mewn cymaint o amgylcheddau gwahanol.

*The curriculum for our younger learners continued to evolve with pupil voice and broad themes allowing pupils to enjoy and benefit greatly from a range of learning experiences. Much emphasis was placed on practical learning experiences.*

*As part of their 'Migration' topic, Year 2 pupils throughly enjoyed plotting the journey of the 'nico', building individual nestboxes, building nests and visiting the local wooded area to look for the birds who reside there.*

*Year 1 pupils gained a better understanding of their local area by visiting the canal to observe the wildlife. They planted both trees and plants and learned how to care for the school garden. A highlight for many of the pupils was excavating for dinosour bones in the wild garden area of the school. This coupled with a lesson by the National Museum on dinosours ignited the interest of the pupils and they thoroughly enjoyed the topic.*

*Our very youngest learners in the Nursery were provided with a vast array of practical learning opportunities. They developed their basic welsh language skills when tasting foods, mixing colours, experimenting with magnets, water and dough. They thoroughly enjoyed their learning about people who help us and superheroes as part of the 'Bravery' topic.*

*To enrich the curriculum further, we had many visitors and visits. These included a trip to Sainsbury's, a very successful coffee morning for Grandparents and a talk by a member of the Goytre Community Gardens on beekeeping. Pupils benefited from trips to the Senedd and Techniquest.*

*Throughout the year, the Foundation Phase children were lucky enough to experience weekly lessons from from 'Torfaen Music'. Once again this year, year 2 children received free violin lessons from 'Gwent Music' and it was lovey to see them perform to their families at the end of their lessons.*

*This is just a snapshot of the many varied learning experiences that have been arranged for the pupils. The X account is a great platform to see how our pupils develop their skills in all areas of the curriculum and in so many different environments.*

**Blynyddoedd 3-6**

Datblygu'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol oedd yr egwyddor allweddol pan oedd staff yn cynllunio'r themâu a'r profiadau dysgu eleni. Mae pob thema yn dechrau gyda sesiynau rhagarweiniol lle mae disgyblion a staff yn cydweithio i gynllunio'r dysgu dilynol.

'Mudo' oedd thema gyntaf y flwyddyn. Ymwelodd cwmni theatr 'Mewn Cymeriad' i gyfleu stori'r Mimosa i'r disgyblion. Roedd y thema hon hefyd yn addas ar gyfer gwaith ymchwil gan y ddisgyblion i bam mae rhai anifeiliaid ac adar yn mudo. Ar ôl dysgu mwy am rai adar, gwnaeth y disgyblion bwydydd adar a thynnu llun y rhai sy'n mudo.

Fel rhan o'r thema 'Dewrder', dysgodd disgyblion am ffigurau yn hanes Cymru a gafodd effaith oherwydd eu dewrder a'u credoau e.e. Betsi Cadwaladr a Nye Bevan. Roedd datblygu sgiliau TGCh y disgyblion yn flaenllaw yn y cynllunio a mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 gynllunio algorithm a chynhyrchu gwefan ar y thema hon. Sicrhawyd cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru i rai o'n disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ddatblygu eu sgiliau celf fynegiannol yn ystod y thema 'Hunaniaeth'. Fel rhan o brosiect tymor, cafodd y disgyblion gyfle i sgrin-brintio, argraffu crys T, dysgu mwy am fod yn 'DJ', ymweld â cherflun Betty Campbell a'r Amgueddfa Genedlaethol a gwylio perfformiad gan gwmni theatr Mewn Cymeriad am Betty Campbell.

'Newidiadau' oedd e'n thema olaf am y flwyddyn a

Mae disgyblion wedi derbyn gwersi cerdd dosbarth cyfan gan Cerdd Torfaen. Cafodd disgyblion blwyddyn 3/4 gyfle i ddysgu sut i chwarae'r glockenspiel a chwiban geiniog. Datblygodd disgyblion blwyddyn 5/6 eu sgiliau cerddorol wrth ddysgu'r delyn a'r ukelele. Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn prosiect pontio llwyddiannus iawn gydag ysgolion eraill clwstwr Gwynllyw a gydlynwyd gyda 'Upbeat Music'. Derbyniodd ein disgyblion Blwyddyn 6 wersi ar y drymiau djembe a pherfformio gyda'u cyfoedion mewn cyngerdd yng Nghanolfan Dysgu Gweithredol Pont-y-pŵl ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Trefnwyd tair taith breswyl yn ystod y flwyddyn. Treuliodd Blwyddyn 4 y noson yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd, Blwyddyn 5 am ddau ddiwrnod yng Nghanolfan Aml-weithgaredd Llangors a Blwyddyn 6 yn ymweld â Gwersyll yr Urdd Llangrannog am y penwythnos.

Eto, ciplun yn unig yw hwn o'r llu o brofiadau dysgu amrywiol sydd wedi'u trefnu ar gyfer y disgyblion. Cymerwch olwg ar gyfrif X i weld sut mae ein disgyblion yn datblygu eu sgiliau ym mhob maes o'r cwricwlwm ac mewn cymaint o amgylcheddau gwahanol.

**Years 3-6**

Developing the pupils as independent learners was the underlying principle when staff planned the themes and learning experiences this year. Each theme starts with introductory sessions where pupils and staff work together to plan future learning.

'Migration' was the first theme of the year. The theatre company 'Mewn Cymeriad' visited to relay the story of the Mimosa to pupils. This theme also lent itself to pupils researching why some animals and birds migrate. Upon learning more about certain birds, pupils made bird feeders and drew those which migrate.

As part of the 'Bravery' theme, pupils learnt about figures in Welsh history who made an impact due to their bravery and beliefs e.g. Betsi Cadwaladr and Nye Bevan. Developing the pupils' ICT skills was at the forefront of planning and Year 6 pupils enjoyed planning an algorithm and producing a website on this theme.

'Changes' was our final theme and pupils developed their understanding of climate change, changes to the welsh landscape and changes to the body.

Funding was secured from the Arts Council of Wales for some of our Year 5 and 6 pupils to develop their expressive art skills during the 'Identity' theme. As part of a term long project pupils had the opportunity to screen print, print a T-shirt, learn more about Djing, visit the Betty Campbell statue and National Museum and to watch a performance by the Mewn Cymeriad theatre company about Betty Campbell.

Pupils have received whole class music lessons from Cerdd Torfaen. Year 3/4 pupils had the opportunity to learn how to play the glockenspiel and penny whistle. Year 5/6 pupils developed their musical skills when learning the harp and ukelele. Year 6 pupils took part in a very successful transition project with the other schools in the Gwynllyw cluster which was coordinated with 'Upbeat Music'. Our Year 6 pupils received lessons on the djembe drums and performed along with their peers in a concert at the Pontypool Active Learning Centre at the end of the academic year.

Three residential trips were organised during the year. Year 4 spent the night at the Urdd Centre in Cardiff Bay, Year 5 spent two days at the Llangorse Multi Activity Centre and Year 6 visited the Urdd Camp at Llangrannog for the weekend.

Again, this is just a snapshot of the many varied learning experiences that have been arranged for the pupils. Please take a look at the X account to see how our pupils develop their skills in all areas of the curriculum and in so many different environments.

## Cynllun mynediad i'r ysgol

Fel ysgol, rydym sichrau bod yna ddysgu ac addysgu da iawn sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. Rydym yn sicrhau bod pob plentyn ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau ein bod yn gwrdd â gofynion pob plentyn.

Mae rampiau y tu mewn a thu allan i'r adeilad yn sicrhau bod disgyblion a rhieni gydag anabledd yn gallu cael mynediad i bob rhan o'r adeilad.

Mae tŷ bach sydd hefyd yn addas ar gyfer disgyblion ag anableddau o fewn yr adeilad. Mae ardaloedd sydd â nifer o dai bach yn rhan o bob dosbarth. Mae'r gofalwr a'r glanhauwyr yn sicrhau eu bod yn lân ac yn ddiogel. Mae hyn yn cael ei wirio yn ddyddiol. Mae'r staff dysgu hefyd yn atgoffa'r disgyblion am bwysigrwydd hylendid personol.

## *School Accessibility Plan*

*As a school we ensure that good quality learning through good quality teaching and support is provided by all in the school. We ensure that all pupils with a disability have the same experiences as everyone else. We evaluate our performance regularly to ensure that we are meeting the needs of each pupil.*

*There are ramps inside the building and a toilet that is suitable for the needs of those with a disability. Toilets are located in every classroom area. They are cleaned and monitored for cleanliness on a daily basis by the cleaning staff and the school caretaker. The teaching staff also remind the pupils about the importance of personal hygiene.*

## Iechyd a Lles

Mae lles ein disgyblion wrth wraidd pob dim rydym yn ei wneud ac yn sail i'n cwricwlwm newydd. Mae'n hollbwysig i ni sicrhau bod y disgyblion yn cael digon o wybodaeth am y cymorth a'r asiantaethau sydd ar gael iddynt. Mae prynhawniau lles wedi'u hamserlenni ar gyfer bob prynhawn dydd Mercher. Rhoddir pwyslais ar anghenion y disgyblion a defnyddir llyfrau penodol fel sbardun i'r gwaith. Darparir cymorth ychwanegol i grwpiau targed. Mae'r cymorth yma'n cynnwys sesiynau COMiT, Cwnsela a chefnogaeth benodol i'n gofalwyr ifanc.

Mae gan yr ysgol bolisi 'dŵr wrth y ddesg' ac rydym yn sicrhau ein bod yn achub pob cyfle i hyrwyddo bwyta diet cytbwys. Mae'r staff yn cynnal clybiau ffitrwydd allgyrsiol wythnosol ac mae gan bob dosbarth dwy sesiwn llythrennedd corfforol ar yr amserlen bob wythnos. Rydym wedi cynyddu'r cyfleodd i ddysgu yn yr awyr agored ac yn gweithio gydag asiantaethau allanol i ddatblygu'r ddarpariaeth yma ymhellach.

## ***Health and Wellbeing***

*Our pupils' wellbeing is at the heart of all that we do and forms the basis of our new curriculum. It is important that our pupils are aware of the support and of the many agencies which are available to them. Weekly wellbeing afternoons are timetabled for each Wednesday afternoon. An emphasis is placed on the needs of our pupils and specific books are used as a focus for these sessions. Additional support is provided for target groups. This support includes COMiT sessions, Counselling, and specific support for our young carers.*

*The school has a 'water at desk' policy and ensures that every opportunity is taken to promote the importance of a balanced diet. The staff run extra curricular fitness clubs weekly and each class has two physical literacy sessions timetabled per week. We have increased the opportunities for pupils to learn in the outdoors and we continue to work with external agencies to further develop this provision.*

## **Deddf Cyfartaledd**

Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb. Mae ein cynllun cydraddoldeb ysgol yn amlinellu ein blaenoriaethau. Mae'n ofynnol i ysgolion baratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb pwrpasol (unwaith bob pedair blynedd). Gellir dod o hyd i hwn ar wefan yr ysgol.

## ***The Equality Act***

*It is the duty of the school to promote equality. Our School Equality Plan outlines our priorities. Schools are required to prepare and publish a Strategic Equality Plan and bespoke equality objectives (once every four years). This can be found on the school website.*

## **Llawlyfr yr ysgol**

Adolygwyd y prosbectws 2023-24 a gwnaed mân newidiadau yn unol â'r canllawiau a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru. Yn unol â rheolau statudol, dosbarthwyd y llawlyfr hwn i rieni plant sy'n cychwyn addysg llawn amser yn yr ysgol o Fedi 2023. Gellir cael copi pellach o'r llawlyfr o swyddfa'r ysgol neu ar y wefan.

## **School Prospectus**

The school's prospectus for the academic year 2023-24 was reviewed and amended according to the Welsh Governmnent guidelines. To comply with statutory regulations, a copy of the school prospectus has been issued to parents/guardians of pupils commencing full time education as from September 2023. Copies of the prospectus are available from the school office or can be downloaded from the website.

## **Polisïau a dogfennau**

Yn ystod y flwyddyn 2023-24 adolygwyd llawer o bolisïau'r Ysgol gan gynnwys y canlynol:

Polisïau Meysydd Dysgu a Phrofiad, Polisi Diogelwch Plant, Polisi Codi Tâl, Polisi E-Diogelwch, Polisïau Defnydd derbyniol o Gyfryngau Cymdeithasol, Polisi Gofalwyr Ifanc, Polisi Gwrth Fwlio, Cynllun Rheoli Argyfwng a Pholisi Iechyd a Diogelwch.

## ***Policies and Documents***

*During the year 2023-24, the school has reviewed many of its policies including the following:*

*Areas of Learning Policies, Safeguarding Policy, Charging Policy, E-Safety Policy, Acceptable Use of the Internet and Social Media Policies, Young Carers Policy, Anti-bullying Policy, Emergency Management Plan and Health and Safety Policy.*

**Cysylltu â'r gymuned**

Mae'r berthynas dda rhyngom a'r gymuned yn parhau. Mae'r disgyblion yn ymweld â lleoedd ac yn cyfarfod â phobl sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i'w gwaith yn rheolaidd.

Mae'r Heddlu, Swyddogion Diogelwch y Ffordd, Tîm Diogelwch Tân, Knauff Insulation, Newport County, Upbeat a Cherdd Torfaen yn gweithio gyda ni i ddarparu profiadau gwerthgawr i'n disgyblion.

Mae'r ysgol yn dal i gynnal partneriaeth effeithiol iawn gyda Prifysgol De Cymru Casnewydd, Prifysgol Caerdydd ac Ysgol Gyfun Gwynllyw. Mae hwn yn golygu ein bod yn derbyn myfyrwyr i'r ysgol yn rheolaidd, ac mae'r cynllun yn gweithredu yn dda i'r colegau a'r ysgol. Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas dda gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn y clwstwr.

Mae gennym bartneriaeth effeithiol gyda The Care Collective, Byddin yr Iachawdwriaeth, Zero Waste Torfaen, CCYP a CAMHS.

***Community Links***

*The good relationship between the school and the community continues. The pupils visit places of interest and meet people in the locality on a regular basis. Again, Covid impacted on our ability to take the pupils to many places but we took every opportunity to provide rich learning experiences virtually.*

*The Police, Road Safety Officers, Fire Safety Team, Knauff Insulation, Newport County, Upbeat and Cerdd Torfaen work with us to provide further valuable learning experiences for the pupils.*

*The school and the colleges continue with the partnership agreement with The University of South Wales, Newport University, Cariff University and Ysgol Gyfun Gwynllyw. This means that the school has a regular intake of students. The scheme is working very effectively for both the school and colleges. The school has developed effective relationships with the other schools within our cluster.*

*We have developed a very effective partnership with The Care Collective, The Salvation Army, Zero Waste Torfaen, CCYP and CAMHS.*

**Yr ysgol a rhieni/gwarchodwyr**

Mae llawer o ddigwyddiadau tymhorol llwyddiannus sy'n gwahodd i rieni ddod i'r ysgol. Maent yn caniatáu i rieni ddeall mwy am sut mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol a sut y gallant eu cefnogi ymhellach gartref. Mae rhieni'n cael gwybod am newyddion a digwyddiadau ysgol trwy Schoop ac mae gwefan yr ysgol a'r cyfrif X yn cael eu diweddaru bob dydd.

Mae rhieni yn gallu ein cynorthwyo yn yr ysgol. Gall hwn fod ar sawl ffurf e.e.

- darllen gydag unigolion neu grwpiau o ddisgyblion.
- mynd gyda disgyblion ar dripiau neu am dro
- gweithio gyda'r disgyblion fel rhan o'r cynllun diogelwch y ffordd 'Kerbcraft'
- cynorthwyo gyda gwaith celf a gwaith dylunio a thechnoleg
- cludo disgyblion i, ac o ddigwyddiadau chwaraeon
- helpu gyda chlybiau allgyrsiol

***School and parents/guardians***

*Many termly events allow parents to come into school. These help parents to gain a greater insight into how their children learn in school and how they can support them further at home. Parents are informed of school news and events via Schoop, the school website and the X account which are updated daily.*

*Parents are also invited to help us. This can take many forms e.g.*

- *reading to individuals or groups of pupils*
- *accompanying pupils on outings and walks*
- *working with pupils on the Kerbcraft Road Safety Project*
- *helping with art, design, and technology activities*
- *transporting pupils to and from sporting events*
- *helping with extra-curricular clubs*

| **Amser Gwersi/Lesson Times** | | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol yn dechrau i bawb am 8:55yb/School starts for all pupils at 8:55am | | | |
| Cyfnod Sylfaen/Foundation Phase | | Cyfnod Allweddol 2/Key Stage 2 | |
| Sesiwn 1/Session 1 | 8:55-10.30 | Sesiwn 1/Session 1 | 8.55-10.30 |
| Egwyl/Break | 10.30-10.45 | Egwyl/Break | 10.30-10.45 |
| Sesiwn 2/Session 2 | 10.45-11:55 | Sesiwn 2/Session 2 | 10.45-11.55 |
| Cinio/Lunch | 11:55–1:00 | Cinio/Lunch | 11.55-12.55 |
| Sesiwn 3/Session 3 | 1.05-2.05 | Sesiwn 3/Session 3 | 12.55-2.05 |
| Egwyl/Break | 2.05-2.15 | Egwyl/Break | 2.05-2.15 |
| Sesiwn 4/Session 4 | 2.15-3.15 | Sesiwn 4/Session 4 | 2.15-3.25 |

## Adroddiad Cyllid 2023-24/ Financial Report 2023-24

Cario ymlaen o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf/Carry forward from the last financial year
£162,106.76

Gwariant/Expenditure

Costau staffio/Staffing Costs - £1,234,257.47
Premises - £102,607.25
Cyflenwadau a Gwasanaethau/Supplies and Services - £116,031.47
Gwasanaethau Cymorth/Support Services - £39,591.29

Incwm/Income

Government Grants - £171,811.19
Budget Share - £1,246,636.00

Arian wrth gefn/Surplus - £ 172,490.26

# **Dyddiadau Tymor/*Term Dates* 2024-2025**

## Blwyddyn Academaidd 2024-2025

| Tymor | Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Dechrau | Hanner Tymor yn Gorffen | Tymor yn Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref** | Dydd Llun 02.09.24 | Dydd Llun 28.10.24 | Dydd Gwener 01.11.24 | Dydd Gwener 20.12.24 |
| **Gwanwyn** | Dydd Llun 06.01.25 | Dydd Llun 24.02.25 | Dydd Gwener 28.02.25 | Dydd Gwener 11.04.25 |
| **Haf** | Dydd Llun 28.04.25 | Dydd Llun 26.05.25 | Dydd Gwener 30.05.25 | Dydd Llun 21.07.25 |

## 2024-2025 Academic Year

| Term | Term Begins | Half Term Begins | Half Term Ends | Term Ends |
|---|---|---|---|---|
| **Autumn** | Monday 02.09.24 | Monday 28.10.24 | Friday 01.11.24 | Friday 20.12.24 |
| **Spring** | Monday 06.01.25 | Monday 24.02.25 | Friday 28.02.25 | Friday 11.04.25 |
| **Summer** | Monday 28.04.25 | Monday 26.05.25 | Friday 30.05.25 | Monday 21.07.25 |





